# Llais Rhanbarth Gwent – Adroddiad Ymweliad

## Ysbyty Nevill Hall – Ward 3/4 Treowen



**Fformatau hygyrch**

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni. Gallwch ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa:

01633 838516

gwentenquiries@llaiscymru.org

Llais Rhanbarth Gwent,

Tŷ Rhaglan,

William Brown Close

Cwmbrân

NP44 3AB

www.llaiscymru.org

www.llaiswales.org

# CEFNDIR

Corff statudol, annibynnol yw Llais, a gafodd ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i roi mwy o lais i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Fel rhan o'n cynllun lleol, mae Llais Rhanbarth Gwent yn ymrwymedig i gynnal ymweliadau wyneb yn wyneb â wardiau er mwyn cael adborth gan bobl ar y pwynt lle maent yn cael gofal.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r hyn a glywsom gan bobl am eu profiadau yn Ysbyty Nevill Hall, ward 3/4 Treowen.

Ymwelodd ein cynrychiolwyr ymweld gwirfoddol â ward 3/4 Treowen yn Ysbyty Nevill Hall ar 20 Mehefin 2023. Diben yr ymweliad hwn oedd asesu lefel boddhad y bobl, ansawdd ac effeithiolrwydd yr amgylchedd ac arsylwi ar y staff yn rhyngweithio â'r bobl a oedd yn aros ar y ward.

Er mwyn cwblhau'r ymweliad hwn, gwnaeth ein gwirfoddolwyr ymgysylltu â'r bobl a oedd yn aros ar ward 3/4 a nodwyd eu hadborth gan ddefnyddio arolwg.

# YR HYN A DDYWEDODD POBL WRTHYM

Yn ystod yr ymweliad hwn, siaradodd y gwirfoddolwyr â chwe pherson a oedd am ddweud wrthym am eu profiadau o aros ar y ward hon. Mae ward 3/4 yn ward aml-wely.

## *1.1 Y ward:*

Nid oedd yr un o'r chwe pherson y gwnaethom siarad â nhw wedi cael taflen wybodaeth pan gawsant eu derbyn i'r ward.

Ar y cyfan, roedd y bobl yn fodlon ar yr oriau ymweld ar ward 3/4 a oedd yn caniatáu i ffrindiau a theulu ymweld â nhw.

## *1.2 Cyfathrebu:*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw na wnaethant brofi unrhyw broblemau cyfathrebu ar y ward a'u bod wedi gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

## *1.3 Staff:*

Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn gyfeillgar ac yn barod i helpu. Roedd y bobl ar y ward hon yn canmol y staff, roeddent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a/neu eu perthnasau wrth wneud penderfyniadau am eu gofal.

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod digon o aelodau o staff ar y ward i ddiwallu eu hanghenion ddydd a nos. Dywedodd rhai pobl y gellid cael mwy o aelodau o staff ar y ward.

## *1.4 Seinyddion:*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw fod eu seinyddion yn gweithio ac o fewn cyrraedd iddynt os bydd angen. Pe byddent yn cael eu defnyddio, byddai'r staff yn ymateb i'r seinyddion ar unwaith, ond gall fod peth oedi pan fydd y ward yn brysur iawn.

## 1.5 *Cyfforddusrwydd:*

Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gyfforddus, a bod ganddynt ddigon o flancedi a gobenyddion. Dywedwyd wrthym hefyd eu bod wedi cael eu hannog i godi a symud o amgylch yn ddiogel, lle y bo'n bosibl.

## 1.6 *Gofal personol:*

Roedd anghenion y bobl ar gyfer mynd i'r toiled yn cael eu diwallu ac roeddent yn gallu cael cawod/ymolchi mor aml ag y mynnent. Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wrthym y gallent olchi eu gwallt mor aml ag y mynnent a bod eu hanghenion hylendid y geg/dannedd yn cael eu diwallu.

## 1.7 *Cyfleusterau ar y ward:*

Nododd pob un o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw bod teledu ar gael iddynt yn eu hystafell/bae ond nad oedd darpariaethau ar gael i ddefnyddio radio nac i ddarllen papurau newydd.

Mae ystafell ddydd ar ward 3/4 ond nid oedd pawb yn ymwybodol o hyn nac o'r ffaith bod ystafell i deuluoedd ac ardal breifat ar gael iddynt er mwyn gwneud a derbyn galwadau ffôn.

## 1.8 *Diflastod ac ynysigrwydd:*

Dywedodd rhai pobl eu bod wedi diflasu neu'n teimlo'n unig ar y ward ac nid oedd y rhan fwyaf yn ymwybodol o'r gweithgareddau oedd ar gael ar y ward.

## 1.9 *Amseroedd bwyd:*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wrthym nad oedd y staff yn annog hylendid dwylo cyn amseroedd bwyd, ond bod cleifion yn cael eu cefnogi i fwyta ac yfed.

Dywedodd pob person a gwblhaodd yr arolwg wrthym ei fod yn cael y pryd bwyd y gwnaeth ei archebu bob amser.

Dywedwyd hefyd fod byrbrydau ar gael iddynt ddydd a nos a'u bod yn teimlo bod eu jwg dŵr yn cael ei newid yn ddigon aml.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl nad oeddent yn cael dewis o ran lle y gallent fwyta eu prydau.

Rhoddodd chwe pherson yr adborth canlynol i ni ynghylch y bwyd ar y ward:

| | Da iawn | Da | Boddhaol | Gwael | Gwael Iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Ansawdd y bwyd | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Tymheredd y bwyd | 0 | 3 | 1 | 2 | 0 |
| Cyflwyniad y bwyd | 1 | 4 | 1 | 0 | 0 |
| Maint dognau | 2 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Y dewis o fwyd | 1 | 3 | 2 | 0 | 0 |

### *1.10 Sylwadau'r bobl:*

Gwnaethom ofyn, "Beth sydd wedi bod yn gadarnhaol am eich cyfnod ar y ward?"

Sylwadau:

*"Wedi cael gofal da."*

*"Gofal da."*

*"Da fel arfer."*

*"Wedi cael fy nhrin yn dda."*

*"Staff gofalgar ac yn gweithio'n galed. Mae'r rhan fwyaf o gleifion â dementia neu wedi cael strôc."*

Gwnaethom hefyd ofyn i bobl nodi unrhyw awgrymiadau a allai wella eu hamser ar y ward.

Sylwadau:

*"Cyfathrebu – dywedwyd wrthyf fy mod yn mynd adref ond yna cefais fy symud, heb gael y wybodaeth ddiweddaraf. Poen meddwl a dryslyd – bydd angen cyfathrebu'n well y tro nesaf os gwelwch yn dda."*

*"Mwy o ffysiotherapi."*

*"Mae'n anodd cael gafael ar wybodaeth ar y ward ar brydiau ers dydd Gwener diwethaf, ac nid wyf wedi cael y wybodaeth diweddaraf ers hynny."*

# ARGYMHELLION

Hoffai Llais Rhanbarth Gwent i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ystyried yr argymhellion canlynol:

1) Rhannu'r sylwadau cadarnhaol a geir yn yr adroddiad hwn â'r staff ar ward 3/4.

2) Sicrhau bod pob un o'r cleifion yn cael taflenni gwybodaeth am y ward wrth gael eu derbyn.

3) Sicrhau bod staff yn ymateb i seinyddion yn brydlon.

4) Sicrhau bod pobl ar y ward yn cael gwybod am yr ystafelloedd cymunedol/i deuluoedd a'r ardaloedd preifat sydd ar gael iddynt.

5) Sicrhau bod y bobl ar y ward yn cael eu hannog i ddefnyddio hylendid dwylo cyn prydau bwyd a drwy gydol eu hamser ar y ward.

**Atodiad 1 – Canlyniadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn yr Arolwg**

Nifer y bobl a gwblhaodd y cwestiynau am Gydraddoldeb ac Amrywiaeth:

| **Beth yw eich iaith o ddewis** | |
|---|---|
| Saesneg | Arall |
| **4** | |

| **Gyda pha ryw ydych chi'n uniaethu?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dyn/bachgen | Menyw/merch | Di-ddeuaidd | Arall | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
| **3** | **3** | | | |

| **Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson traws?** | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
| | **6** | |

| Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol? | | | |
|---|---|---|---|
| Anrhywiol | Deurywiol | Hoyw | Lesbiaidd |
| | | | |
| Heterorywiol/Syth | Panrywiol | Arall | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
| **6** | | | |

| Mis a Blwyddyn Geni | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr 1950 - 60 | Chwefror 1940 - 50 | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin |
| **1** | **1** | | | | |
| Gorffennaf 1930 - 40 | Awst 1940 - 50 | Medi | Hydref 1970 - 80 | Tachwedd | Rhagfyr |
| **1** | **1** | | **1** | | |

| Beth yw eich ethnigrwydd? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | | | | |
| Bangladeshaidd | Tsieineaidd | Indiaidd | Pacistanaidd | Arall |
| | | | | |

| Du neu Ddu Prydeinig | | |
|---|---|---|
| Bangladeshaidd Tsieineaidd | Indiaidd Pacistanaidd | Arall |
| | | |

| Cymysg | | | |
|---|---|---|---|
| Asiaidd a Gwyn | Du Affricanaidd a Gwyn | Du Caribïaidd a Gwyn | Arall |
| | | | |

| Gwyn | | | |
|---|---|---|---|
| Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig | Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | Gwyddelig | Arall |
| **5** | | | **1** |

| Grŵp ethnig arall | | |
|---|---|---|
| Arabaidd Unrhyw grŵp arall | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Arall |
| | | |

| Beth yw eich crefydd neu gred? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bwdhaeth | Cristnogaeth | Hindŵaeth | Islam | Iddewiaeth |
| | **4** | | | |
| Siciaeth | Anffyddiaeth | Dim crefydd | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Arall |
| | | | **2** | |

| Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd? | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
| **6** | | |

| Ydych chi'n gofalu am aelod o'ch teulu, ffrind neu gymydog, neu'n rhoi cymorth iddo o ganlyniad i anabledd corfforol hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl neu broblemau sy'n ymwneud â henaint? | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
| **2** | **4** | |
| **Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu a ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?** | | |
| Ydw/Do | Nac ydw/Naddo | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
| | **6** | |

| Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich statws ariannol orau? | |
|---|---|
| Mae gen i fwy na digon ar gyfer hanfodion, a swm mawr o incwm gwario, y gallaf ei gynilo neu ei wario ar unrhyw beth ychwanegol neu ar weithgareddau hamdden | |
| Mae gen i fwy na digon ar gyfer hanfodion, a swm bach o incwm gwario, y gallaf ei gynilo neu ei wario ar unrhyw beth ychwanegol neu ar weithgareddau hamdden | **1** |
| Mae gen i ddigon ar gyfer hanfodion a fawr ddim arall | **2** |
| Does gen i ddim digon ar gyfer hanfodion sylfaenol ac weithiau byddaf yn rhedeg allan o arian | |
| Wn i ddim/gwell gen i beidio â dweud | **4** |

**Atodiad 2**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Cwblhewch y tabl canlynol er mwyn nodi a fydd polisi/gweithgarwch/adroddiad Llais yn cael effaith andwyol, gadarnhaol neu wahaniaethol ar y grwpiau canlynol, neu na fydd yn cael unrhyw effaith o gwbl.

| **Effaith** | **Dim** | **Negyddol** | **Cadarnhaol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion Gwarchodedig** | | | | |
| Oedran | X | | | |
| Anabledd | X | | | |
| Rhyw | X | | | |
| Hil | X | | | |
| Crefydd/Credoau | X | | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | X | | | |
| Ailbennu Rhywedd | X | | | |
| Priodas a Phartneriaeth sifil | X | | | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | X | | | |
| **Nodweddion eraill i'w hystyried** | | | | |
| Y Gymraeg | | | X | Caiff adroddiadau ac arolygon eu cyhoeddi yn ddwyieithog |
| Ieithoedd eraill | | X | | Gellir cyhoeddi adroddiadau ac arolygon yn yr iaith ofynnol ar gais |
| Hawliau Dynol | X | | | |
| Lefel tlodi | X | | | |
| Unigolion â dibynyddion | X | | | |
| Poblogaeth wledig | X | | | |
| Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr | X | | | |
| Unigolion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio technoleg ddigidol | X | | | |

**Asesiad risg**

| |
|---|
| **A oes unrhyw risgiau'n codi wrth roi'r polisi hwn ar waith?**<br>Dd/G |
| **Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?**<br>Dd/G |
| **Y Gymraeg**<br>Mae'r ddogfen hon/polisi/adroddiad hwn wedi'i hasesu/asesu yn unol â'n gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer safonau:<br>37,38<br>69,70,71<br>Wrth benderfynu ar yr effaith, gallwn ddangos y canlynol:<br>Mae pob dogfen gyhoeddus ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>Mae Llais yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg.<br><br>**Canlyniad**<br>Effaith gadarnhaol –<br>Safonau 37, 38 – Caiff pob dogfen gyhoeddus ei llunio a'i chyhoeddi'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>Safonau 69-71 - Rydym yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg.<br>Effaith Negyddol – Dim |